



Llun: Keith O'Brien

Tylluan Glustiog yn hela yn y brynau ger Trawsfynydd

A dyma ran arall o gyfoeth ardal Trawsfynydd, *Hypericum elodes* neu eurynllys y gors.

Roedd y planhigyn yma yn tyfu ar dir gwlyb ger Y Cwrcwllt, Trawsfynydd, gan Griff Williams



I fro'r meillion a'r gronell - i'r comin A'r cymoedd anghysbell Edward Llwyd a gwyd o'i gell Fintai i wisgo'i fantell

D O Jones (diolch i Gruff Ellis) ar ôl taith Cymdeithas Edward Llwyd i Tŷ Uchaf

Pigion o DEYRNGED I D.O. a ddarlienwyd gan Hywel Tai Duon ddydd ei angladd

Ganed D.O. yma yn 'Sbyty yn 'Rafon Bach yn mis Mai 1920. Symud wedyn i Tŷ'n Lon ac yn unarddeg oed troi am Gwm Eidda i fferm Bryn Ddraenen. Pan yn ddeunaw oed, croesi'r afon Eidda i Tŷ Uchaf ac yno treuliodd ei fywyd yn amaethu. Fel bardd yn anad dim arall y cofiwn i am D.O. Byddai troeon trwstan yn ei gynhyrfu ac mae'r "Odyn" dros y blynyddoedd yn frith o'i waith. Dileit mawr arall gan D.O. oedd bod yn aelod o dim Ymryson y Beirdd Nant Conwy a enillodd dlws barddas ddwy waith, yn Eisteddfod Wrecsam 1977 a Chaemarfon 1979. Nhw hefyd gipiodd y gyfres gyntaf o 'Dalwrn y Beirdd' ar Radio Cymru yn 1980.

'Roedd gan D.O. feddwl y byd o Gapel Padog. Bu'n athro ar y dosbarth hynaf yn yr Ysgol Sul am ddeugain mlynedd. Yn ystod y chwedegau D.O. oedd tacsî Ysgol Sul Cwm Eidda hefo'r 'Yellow Submarine'- Fford Consyl melyn mawr gyda'r rhif VDM 7. Fe gyrhaeddai Padog yn llusgo'r llawr - dau o Bryn Ddraenen, dau o Eidda, chwech o Tŷ Ucha, dau o Ben y Geulan a thri o Fron Ddu ac os ydi fy syms i'n iawn...llond car golew.

Allwn ni ddim son am fywyd DO. heb son am ei ddyddiaduron. Bu'n cadw dyddiadur bob dydd yn ddi-dor ers 1934 - cyfanswm o 65 o flynyddoedd. Cofnodai'n gyntaf ei fywyd bob dydd o gwmpas y fferm, a hefyd gweddill y teulu. Yna byddai'n mynd ati i gofnodi digwyddiadau cenedlaethol a rhyngwladol sydd erbyn hyn yn adlewyrchiad o dreigl yr amseroedd yn ystod ei oes. Mae ei



ddyddiaduron yn gofnod o'r newid a fu ym myd amaeth o fyd y pladur a'r injan ddyrnu i fyd y bymau mawr. Mae'r cyfan rhwng cloriau ei ddyddiaduron a phleser i D.O. oedd cael rhannu eu cynnwys ar dudalennau'r "Odyn". Mae arswyd y rhyfel yn amlwg yn y

dyddiaduron nes bod dyn yn amau weithiau oedd hi'n werth i bobl Cwm Eidda godi tatws gan gymaint o fomiau oedd yn disgyn.

Yn ystod y rhyfel roedd D.O. yn aelod o'r 'Home Guard' a tasa Hitler wedi glanio ar gae Bod Ifan 'ma fasa hi ddim yn dda arno fo. Un tro cafodd 'Home Guard' 'Sbyty y newydd fod Almaenwyr wedi parashwtio i lawr ar Benmachno. 'Full alert' wedyn am y Migneint a gorwedd yn un rhes yn y grug wrth Tŷ Cipar tan i'r wawr dorri a'r barrug yn flanced wen drostynt. Ond 'false alarm' oedd hi diolch byth. Dro arall 'mock invasion' o Fetws y Coed. Wrth i fyddin 'Home Guard' 'Sbyty ddynesu, gwaeddodd rhyw Sais oedd yn cuddio yng ngwrych ei ardd "You'r dead, mate!" Heb yn wybod iddo 'roedd na un o 'Sbyty tu ol iddo yn llechu yn ei batshyn tatws a lefarodd y geiriau anfarwol "You'r deader!"

Yn ystod y cyfnod yma daeth D.O. yn giamstar ar y 'morse code' yn wir yn un o'r goreuon yn y cyfrwng hwnnw. Flynyddoedd yn ddiweddarach daeth cyfrwng cyfathrebu arall i'w ddi-ddori sef y 'CB' neu Radio'r Werin. 'Roedd gan bawb ffug enw ar y tonfeddi ac yn teymasu yn y Tŷ Ucha' roedd "Owain Glyndwr" ei hun sef ffug enw D.O. wrth

gwrs.

Ond fedrwrch chi ddim caru'ch gwlad heb garu'ch bro eich hun a Chwm Eidda oedd cariad cyntaf D.O. Fo oedd y Brenin a'r Cwm oedd ei deymas. Dotiai bob gwanwyn at y ffrwydriad o fywyd gwyllt a lenwai'r cwm. Ymddiddorai'n arbennig yny blodau prin yn Wern Ty Ucha' Sylweddolodd yn gynnar fod tegeiriannau ac ysgall anghyffredin ymysg banadl y Wern ac aeth ati ar ei liwt ei hun i warchod y trysorau yma. Hyn oll cyn bod son am SSSI na mudiadau gwarchod natur. 'Roedd D.O. yn naturiaethwr wrth reddf ac wrth ei fodd yn crwydro'r wernydd.

D.O. Jones yw un o'r gwychaf o'r dyddiadurwyr sydd yn cyfoethogi "tudalennau" y Tywyddiadur ar wefan Llên Natur. Mae ei gronici amhrisiadwy yn dangos o ddydd i ddydd beth oedd yn digwydd ar ei fferm i greu y fath gyfoeth a gafodd ei nodweddu ar raglen Countryfile y BBC yn ddiweddar.



Llun: Tom Jones

Mellt cochion

Tŷ Uchaf, Padog 11 Ionawr 1947: Tywydd, mellt cochion, taranau, cenllysg, oer.

Dyddiadur DO Jones, Padog (o deipysgrif electronig, gyda chaniatad y teulu)

Meddai Huw Holland Jones:

There are various reasons why lightning comes in many colours. The basic reason is the temperature of the stroke. Lightning comes in every colour (Red, Yellow, Green, Cyan, Blue, and Violet, to name a few). It's almost always white, but often it's tinged with another color around the edges. The three most common colours (besides white) are blue, electric yellow, and violet. The colour of the bolt depends on how hot it is; the hotter the lightning, the closer the colour will be to the ultraviolet end of the spectrum. Red is the coolest to violet, hottest. Also the state of the atmosphere affects lightning colour, eg. a hazy sky might cause redder lightning. Another factor is the height of the lightning, where certain gases predominate at different levels & cause different colouration to the lightning. lightning ionises different gases in the atmosphere as it strikes. For example, high-pressure (low atmospheric) oxygen results in red, low pressure (high atmospheric) oxygen results in green, nitrogen results in a different shade of green. HHJ

Dyma ddywedd Twm Elias yn ei gyfrol Am y Tywydd (Gwasg Carreg Gwalch), tud. 279

Mellt melyn neu gochion – tywydd sych, h.y. gallant ddigwydd heb fawr o law


Mellt gleision – tywydd gwlyb, tywydd stormus gwlyb

Felly: pwysedd uchel - mellt coch - tywydd sych; pwysedd isel - mellt glas - tywydd gwlyb yn ôl dihareb

Beth felly oedd sefyllfa'r tywydd dros Ewrop ddiwrnod mellt

cochion DO ar 11 Ionawr 1947? Dyma'r siart synoptig o <http://www.wetterzentrale.de/topkarten/fsslpeur.html> (T =

Tiefdruck = pwysedd isel)



Huw, glaw sobor gafwyd dros y tri diwrnod canlynol, gyda D.O. yn cofnodi "Corwynt, hyrddwynt coed mawr wedi syrthio wrth Tŷ'r Bont, ei llifo i wneud lle ir car basio heibio. Llifogydd afon Conwy wrth Llanrwst yn uchel iawn. Ystormus gyda'r nos".

Fel y byddai Twm gyda'r cyntaf i gyfaddef, dydi pob dywediad tywydd ddim yn dal dŵr pob amser!

Llifogydd yng Nghwm Nantcol o gwmpas 1930

Roedd y llifogydd mawr a'r trafferthion a ddigwyddodd yn ochrau Aberystwyth yn ddiweddar wedi dod ac atgofion yn ôl i William Stephens, Maesygarneidd gynt, am gwmwl yn torri uwchben y Moelfre tua dechrau tridegau'r ganrif ddiwethaf. Roedd rwbwl o'r gwaith mango a cherrig o ochr y Moelfre wedi eu hysgubo i lawr at groesffordd Dyffryn a rhigolau o rai troedfeddi yn y ffordd at Bistyll Gwyn ac i lawr at Glanrhaeadr gan lenwi'r buarth â cherrig.

Mae Meurig Jones yn cofio'r digwyddiad hefyd er ei fod yn ifanc iawn, a bod y ffordd o dan dŷ'r Hendre hefyd wedi ei golchi i fwrdd. Cafodd Alun hefyd hanes gan Andro i gorlannau Graig Isa oedd yn terynu â Cheunant Cilcychwyn gael eu hysgubo i fwrdd a dwy wal o gwmpas Cilcychwyn eu chwalu'n llwyr.

Diolch i William a Meurig am rannu eu hatgofion â ni. Unrhyw syniad rhywun pa fydddyn yn union, neu well fyth pa fis?


Papur Bro Llais Arduwy

Llymriaid, llymriata

Roedd yna haig o'r pysgod yma yn y môr yng Nghricieth (7 Gorff 2012). Be ydynt tybed? Roeddent yn agos i'r lan ac yn mynd yn ôl ac ymlaen yn aber Afon Marchnad.

Llymriaid bach ifanc yw'r rhain maent i'w cael wrth y canoedd o gwmpas y creigiau yma yn Criccieth.

Anodd iawn dweud o'r darlun, ond mae'r pysgod yn debycach i llymriaid (sand eels) na' silod man (whitebait) sef penwaig bychain.



Gwyn Williams


Tom Jones

Sion Roberts

Pitch pein (Pinus palustris)

Pam tybed y gwnaethpwyd seti a dodrefn capeli Cymru o goed *Pinus palustris*, sef y binwydden hirddail? Dyma ddsbarthiad y goeden hon rhwng Tecsas a Virginia.

Pam fod cymaint o fynd ar y pitch pein yma yn y cyfnod yn hytrach na choed cynhenid lleol? Pryd ddechreuodd y mewnforio? Beth oedd gwneuthuriad dodrefn capeli ac eglwysi cyn oes y pitch pein.



Pinus palustris

Bwrw bysedd

Mae'r bysedd cwn wedi bwrw eu bysedd erbyn hyn a phawb yn gorfod aros blwyddyn cyn clathio'r cwn unwaith eto. Mae'n debyg bod mwy o enwau ar y planhigyn hwn yn yr ieithioedd na'r un planhigyn arall. Dewch â rhai i Llên Natur.

Wyddoch chi bod dywediad yn y Llydaweg i'r perwyl "Kae da stracal brulu war Menez Arre", (Cer i clathio bysidd cwn ar y mynydd), neu, yn nhafodiaeth y gogledd "cer i grafu", "dos i ganu" neu amrywiadau llai gweddus).




Coipiw Llydaw



Dyma lun dynnodd Beca Wyn o Dalybont ac Eleri Lovgreen ar eu hymweliad â Landerne, Llydaw yn ddiweddar. Beth ydi'o tybed?

Cafodd y coipiw ei gyflwyno o Dde America ddechrau'r ganrif ddiwethaf am ei ffwr. Un o deulu'r llygod mawr yw'r coipiw. Cyrhaeddodd Ffrainc yn 1882 a Phrydain yn 1929. Llwyddwyd i'w ddifa yn gyfan gwbl ym Mhrydain cyn iddo gael ei draed tano go iawn.

Roedd yn creu difrod mawr yn y gwelyau hesg yn Nwyrain Anglia.



Escape or release
Extinct
Never established
Data unavailable
Eradicated

Atodiad BioFlits

30 Mehefin 2012
Plas Tan y Bwlch



BioFlits - beth a pham?

Syniad y bioflits yw cofnodi cynifer â phosib o rywogaethau anifeiliaid a phlanhigion mewn diwrnod dan arweiniad arbenigwyr yn eu maes. Bydd y canlyniadau yn cael eu rhoi ar gof a chadw yng nghronfeydd y gwasanaethau cofnodi (mae tri ohonynt yng Nghymru) Cynhaliwyd y blits Cymraeg cyntaf ym mis Mehefin eleni



1

**Tocyn llyfr £10 i'r cyntaf i
roi rhifau'r llun cywir wrth
10 o'r enwau yn yr atodiad
trwy Cysylltwch Llên Natur erbyn 15 Awst.**

Ilygoden bengron goch
Mirain
bysedd y cwn
Kelvin
gwalchwyfyn yr helyglys
ystlym bach
Alisa
gwllithen ddu (...du?!)
talcen beiffocal
Leucobryum glaucum
carniog y cyll
mursen las
dryw bach
mwyalchen
blaen brigyn
gwennol
lolo
penseran
llwyn pili pala



2



3




4



6



7



8



5



9

Beth am gynnal mwy o FioFlitsiau?

Mae'r bioflits
yn hwyl
yn fodd i ddod a phobl at ei gilydd
yn hyfforddiant
yn gyfle i ddysgwyr

Mae llawer o arbenigwyr ar gael i gynnig o'u hamser a'u harbenigedd...neu efallai eich bod chi ag arbenigedd eich hun?

Mae system cofnodi gwasanaeth Cofnod yn gwbl ddwyieithog... ond mae'n bosibl hefyd cofnodi trwy wefan Llên Natur Cymdeithas Edward Llwyd

Gwylwch y wefan am fanylion am fwy o fioflitsiau

Cofnodi rhywogaethau trwy Llên Natur
Os hoffech roi eich cofnodion trwy Llên Natur, tynnwch lun o'r creadur a'i roi yn yr Oriol gydag:

eich enw
enw'r lle
cyfeirnod grid

Peidiwch a phoeni os nad ydych yn hollol siwr beth yw'r creadur neu'r planhigyn - gyda lwc bydd y llun yn dangos beth ydyw i'r arbenigwr.



Cynhadledd 24 Tachwedd 2012

Yn y gynhadledd flynyddol bydd Aisling Carrick a'r bioflitswyr eraill yn cyflwyno canlyniadau BioFlits 30 Mehefin 2012 Plas Tan y Bwlch.

Ond bydd llawer mwy na hynny yn yr arlwy. Cynhadledd i wyntyllu holl ymwneud y Cymry âg anifeiliaid a phlanhigion fydd hon. Dyma rai o'r cyfraniadau:

Yr Athro Gwyn Thomas yn son am anifeiliaid yn y Mabinogion

Gareth Griffiths yn dathlu dau canmlwyddiant cyhoeddi Welsh Botany Huw Davies

Gwerth economaidd rhywogaethau a'r amgylchedd Morgan Parry (Cadeirydd Cyngor Cefn Gwlad Cymru)

'Adar ym Marddoniaeth yr Oesoedd Canol' (Howard Williams, 'Prifysgol Aberystwyth')

Tair canrif o newidiadau amaethyddol yng Nghymru a'u heffaith ar fywyd gwylt a chefn gwlad (Twm Elias)

DEWCH YN LLU I'R PLAS



22



23



17



24



18



20



19



21



25

Gyda diolch i'r ffotograffwyr canlynol:
Alun Williams
Eifion Griffiths
Dewi Edwards
Gwyn Williams
Keith O'Brien

Piod ar gynnydd yn 1945

Lle dwi di clywed hyn
am y piod o'r blaen?

Tŷ Uchaf, Padog
25 Mawrth 1945

Mynd i'r mynydd, gweld
llwynog yn creigiau Alsi.
Sylwi ar yr adar canlynol
wrth ddod i lawr, Grugieir
a sneipen yn y ffridd,
Brain Tyddyn a Piod yn y
caeau. Y mae Piod wedi cynhyddu yn arw yn ddiweddar, y
mae heidiau ohonynt iw gweld.



Dyddiadur DO Jones, Padog (gyda chaniatad papur bro Yr Odyn a'r teulu)
Aderyn gwyliadwrus iawn fel arfer, perthyn i deulu'r brain. Pan oeddwn
yn fachgen ifanc yn byw yn ardal Bethel, Caernarfon roedd piod yn adar
prin iawn gan eu bod yn cael eu herlid gan giperiaid Stad y Faenol.

Capsiwn a llun gan Alun Williams

Aderyn to 1896



Nyth aderyn y to sydd wedi bod o fewn y ffenestr (*sash window*) ers 1896 pan godwyd y tŷ yn Llanfaglan. Frank Jones dynnodd sylw rhaglen Galwad Cynnar i hyn.

Go dda Frank. Mae Kelvin Jones, swyddog Cymru y BTO wedi cymryd
y nyth i'w dadansoddi. Tybed pa weiriau oedd ar gael i'r adar to yn 1896.
Diolch i waith arloesol prifysgolion Cymru, mae DNA holl blanhigion
Cymru bellach wedi ei gofnodi, a mater bach gobeithio fydd adnabod
pob gwelltyn yn y nyth. Cawn weld.

Anaml iawn mae pethau fel hyn yn digwydd. Cofiaf (Gol.) i deulu yn
swydd Hampshire agor yr hen gorn simdde yn eu ffermdy Long
Candovers, a chanfod cronfa fawr o bellenni tylluanod. Diolch i
gofnodion adeiladwr trylwyr, bu'n bosibl dyddio'r pellenni i 1911. Fe'u
dadansoddiwyd gan ymddiriedolaeth y BTO a chael tystiolaeth o'r
holl anifeiliaid oedd ar gael yn y caeau yn y cyfnod hwnnw nad ydynt
mor gyffredin heddiw. Bu'r tylluannod hyn, canrif yn ôl, yn bwyta
llawer mwy o slumod na heddiw...er enghraifft.

"Llanbedr 50 mlynedd yn ôl"

Gruffydd Dafydd oedd y gof ac roedd yntau'n bersonoliaeth
boblogaidd yn y pentref, yn ffraeth, yn siaradwr cyflym ac yn
weithiwr dygn. Daeth ei efail yn fan cyfarfod i'r pentrefwyr.
Roedd ganddo ddawn arbennig i doddi copr ac efydd, a
phan ofynnwyd am y dull cyfrinachol, ei ateb bob amser
oedd, "Mae arnoch angen lapis calamoniariis, machgen i!"

o draethawd a ysgrifennwyd gan Gwilym Arduwy ym 1907 o dan y pennawd

"Llanbedr 50 mlynedd yn ôl"

LLANBEDR 1857

Mrs J E Jones, Tŷ'n Llan

Diolch i Mrs Morfudd Lloyd am anfon yr hanes i ni .

Pigion o Ddyddiadur DO

"Hen ffordd o fyw" go iawn:

Bu papur Bro Yr Odyn yn cyhoeddi dyddiadurion DO Jones,
ffermwr a bardd, yn fisol ers sawl blwyddyn (gweler y
deyrnged ar y dudalen flaen). Mae ei gofnodion yn agor y
drws ar hen ffordd o fyw sydd bellach wedi mynd heibio.
Dyma ddau:

Tŷ Uchaf, Padog Mehefin 1940:12,13,14 a 15fed - Ffrainc mewn
enbydrwydd. Bugeilio. Mynd i'r mynydd. Torri ar yr wyn gwrryw wrth
gorlan y ffridd. Mynd a mainc at y gorlan a gwneud tan mawn i
boethi yr heyrn torri. S.W Jones Eidda yn dod i dorri ar yr wyn.
Ffosio a thrin mawn. I Llanrwst nos Sadwrn hefo beic, Ffilm am India
'The Rains Came'.

23ain Awst 1940 - Mynd i'r Migneint i saethu Grouse hefo Lord
Penrhyn. 6 dreif i ben y Gamell ac i Mynydd Tŷ Newydd. Dreif at Tŷ
Cipar. Andros o ffrae rhwng y Pen Cipar Mr Thomas Plas Padog ar
ciperiaid eraill. Lein y Beaters yn mynd yn igam ogam wrth groesi y
corydd ar Grouse yn dianc yn eu holau. Cael cinio ar lan Llyn
Conwy a cook Lord Penrhyn yn dod a plateidiau blasus o Rabbit Pei
sbar Lord Penrhyn ar byddygions eraill i ni i'w fwyta. Awel braf o'r
Llyn. Claddedigaeth yn Sbyty Ifan Private Sam Roberts Rhes Fawr
39 oed wedi cael damwain hefo lori yn y fyddin. Dyddiadur DO Jones,
Padog (gyda chaniatad papur bro Yr Odyn a'r teulu)

PENBYLIAID 'SBYTY IF AN

Roedd cynnwrf ar y radio,
Gwnaed ffys ar HTV
Pan welwyd uwch ben 'Sbyty
Ryfeddod yn y lli:
Er bod hi yn fis Tachwedd,
Darganfu rai o'r plant
Drwch da o jeli llyffant
I fyny, ddeuddeg cant.

Mi alwyd naturiaethwyr:
Ted Breeze a Phandy Coch —
Bu'r ddau yn crafu'u pennau
Heb fedru taro'r gloch;
Ai hwyr ai cynnar oeddynt?
— Y grifft oedd drech na Gruff,
Breeze-Jones, ni allodd yntau
Roi sboniad ar eu cyff.

Glaw asid a Chernobyl
A gafodd beth o'r bai,
Ond ateb tipyn symlach
A roddodd amryw rai:
"Y llyffaint wnaeth anghofio
Y gwanwyn dwytha'n llwyr,
O nabad pobol 'Sbyty,
Does ryfedd bod nhw'n hwyr!"

Os ydi Dolwyddelan
Yn "Wlad y Gog" erioed,
Penmachno yn "Penmochyn",
A "Betsis" Betws-coed
Wel, dyma achos dathlu:
Mae'r clwb yn mynd yn fyw —
A "Gwlad y Penabylliaid"
Fydd 'Sbyty inni mwy.

Yr Ap Rhif 149, Tachwedd 1988

Penbylliaid Ysbyty
Ifan wedi methu
d a t b l y g u ' n
llyffantod yn 1988?
Pam tybed...twydd
y gwanwyn? Digon
o wynt a glaw ac
oerfel ond dim byd
gwaeth nag arfer
yn ôl Y
Tywyddiadur.
Rhywun yn
gwybod yn well?

Caldris gulddail...MWY



Ar ôl dangos llun Les Larsen o'r planhigyn hwn ym Mwletin 53 dyma dderbyn cofnod hollol newydd yn 2009 trwy law Iwan Edgar oddiwrth Debbie Evans:

Finally tracked down the record of the Narrow-leaved Helleborine ((Sword-leaved), Cephalanthera longifolia. It was back on 5/6/09 when we saw it at Coed Mynydd Mawr.

Flour brwmstan

Does dim pall ar y cyfoeth sydd yn nyddiaduron DO Jones, Padog:

16 Tachwedd 1944:

Llosgi flour brwmstan yn llofft granar.

22 Tachwedd 1944:

Disinfectio sied yr ieir hefo dwy ganwyll flour Brwmstan.

Dyddiadur DO Jones, Padog (gyda chaniatad papur broYr Odyn a'r teulu)

Y prif gynhwysyn tua 95% yw sylffwr sef Sublimed sulphur, 'flowers of sulphur' yn Saesneg, fflwar, fflwr (*flour*) yn Gymraeg!! Mae'n bosib gwneud un drwy ychwanegu un rhan o 40 yn ôl pwysau o olog (*Charcoal*) i'r sylffwr i hwyluso'r mud losgi. Ei brif ddefnydd oedd fel mygdarthwr (*fumigator*) Mae nwy Sulphur Dioxide yn cael ei ryddhau wrth losgi ac mewn safle caedig mae'n lladd bacteria, firws, sborau ffwng, pryfaid hyd oed anifeiliaid bach oni bai eu bod yn dianc o'r adeilad. Defnyddir cannyll 3 pwys i bob 1000 troedfedd o aer ciwb!!! Drwy wneud hyn pan fydd y tywydd yn llaith mae'n fwy effeithiol. Os yw'r adeilad yn wag gellir golchir waliau, lloriau ayb gyda dŵr gyntaf. Mae'r sulphur dioxide yn toddi yn y dŵr i greu Asid Suphurous a dyma beth sy'n lladd a diheintio. Yr anfantais yw ei fod yn rhydu metal, pydru brethyn ac yn cannu lliwiau. Mae angen cadw'r adeilad yng nghau o leiaf 12 awr os nad 24 awr.

Rhisiart ap Rhys Owen, y milfeddyg o Lansanffraid-ym-Mechain

A dyma dystiolaeth arall, o dywydd "brwmstanllyd" tro'ma:

St Edrens, Sir Benfro 5 Medi 1851:

Rhwymo Ceirch trwy'r dydd yn Parc Main isaf – Rhwymon 7 o ddeisau. Dywirnod tywyll Brwmstanllyd eithaf a rhwym. Cymyleu glâs wynion Taranllyd trwy'r Boreu a Bwrodd rhan Bwshis o wlaw yma ac acw.

Dyddiadur Edward Evans, Parsele. (Diolch i Amgueddfa Werin Cymru)

Llif mawr 1781 ac erail

Onibai am lifogydd mawr 1781 yn ardal Llanuwchllyn a Chwm Cynllwyd, mae'n debyg na fuaswn i'n bod! Daeth fy hen, hen, hen daid, Evan Evans, oedd yn saer pontydd, drosodd o sir Drefaldwyn i Lanuwchllyn i drwsio ac ailadeiladu pontydd a ddifrodwyd gan y llif. Setlodd a phriododd yn yr ardal. Roedd ei farc (EE) ar garreg gloi hen bont a ddiflannodd rhyw 30 mlynedd yn ol pan sythwyd y ffordd rhwng Garneddwen a Llanuwchllyn.

Llyr Gruffydd

A minnau wedi byw a gweinidogaethu yn Llanuwchllyn o 1967 i 1992, diddorol oedd y sôn am Li Mawr 20 Mehefin 1781 ar ddiwrnod Ffair y Llan, a'r nodyn gan Llyr Gruffydd am Evan Evans un o'i hynafiaid yn croesi'r Berwyn o Lanwddyn i Lanuwchllyn i ailadeiladu'r pontydd a sgubwyd ymaith. Roedd Sali Jones oedd yn cadw siop yn y Bala ac a ddaeth yn wraig i Thomas Charles, ar ei ffordd adref o'r Ffair pan wrthododd ei cheffyl fynd dros Bont y Pandy funudau cyn i afon Twrch ei chwalu. Pe byddai Sali wedi boddi ni fyddai Thomas Charles wedi dod i'r Bala ac mae'n bosibl na fyddai Ysgol Sul na Chymdeithas y Beibl wedi dod i fodolaeth. Un o ysgrifau enwog O M Edwards, a faged yn sŵn afon Twrch, yw 'Yr Hen Fethodist, sef hen gloc ei hynafiaid ym Mhen y Geulan ger Pont y Pandy, a gafodd ei ddarganfod yn nofio ar Lyn Tegid wedi'r lli. Fe'i hachubwyd a'i ddychwelyd i'r hen gartref lle bu'n cadw'r amser am genedlaethau. Ynglŷn â'r wraig a gollodd ei bywyd pan foddwyd ei chartref yn y Ceunant Ucha, Cwm Peniel (Cwm Llwyngwern codi'r Peniel cyntaf ym 1828) holwyd ei gw'r pam ei fod yn mynd i fyny yn lle i lawr i chwilio amdani. 'Am ei bod yn gwneud pob dim yn groes i bawb', oedd yr ateb.

Ganrif namyn blwyddyn ym 1880 cafwyd Lli arall a chwalodd Bont y Llan - y bont dros y Ddyfrdwy, a bu difrod mawr fel ym 1781. Ac ar 3 Gorffennaf 2001 cafwyd Lli arall pan orlifodd afon Lliw ym Mhennantlliw a pheri cryn ddifrod.

W J Edwards

Ffynnon Sadwrn

Dyma sut yr ysgrifennodd John Roberts yn Y Llandudno Advertiser ym 1909: "Wrth droedio glan y môr yn Llandudno 'rol mynd heibio Craig y Don, wrth nesau at Drwyn y Fuwch, deurn at waelod Rhiw Bryn-y-bia. Ar y llaw dde deurn at ffordd fechan gul ac ymhen rhyw ganllath cyrhaeddwn Ffynnon Sadwrn, eto ar ochr dde y gulfordd. Gresyn o'r mwyaf yw meddwl fod y ffynnon bellach wedi'i chau.



Gwaetha'r modd digwyddodd y blerwch hwn oherwydd bod draeniau wedi eu hagar yn y cyffiniau. " Ond na, am unwaith mai yna newyddion da am ffynnon! Mae hon yn weddol lewyrchus gydag arwydd wedi ei osod wrth ei hymyl, gresiau i gerdded ati ac mae'r Cyngor yn cadw'r tir o'i chwmpas yn daclus, fel y gwelwch o'r lluniau uchod! Dywed John Roberts ymhellach: "Mae'n gwbl amlwg mai enw Rhufeinig yw 'Sadwrn', neu gyn-Rufeinig. Bu llawer o ddyfalu pam y'i galwyd wrth yr enw hwn. Mewn hen fytholeg roedd Sadwrn yn dduw; ef oedd mab nef a daear a'i ystyr lythrennol mae'n debyg oedd heuwr. Tybed a yw'r enw'n awgrymu bod y ffynnon hon â chysylltiad â'r duw hwn? Neu, a oedd y ffynnon â rhyw gysylltiad â Gŵyl Sadwrn y Rhufeiniaid a oedd yn achlysur o rialtwh i bob dosbarth yn ôl y sôn? Y mae profion bod y Rhufeiniaid wedi gwladychu yma am gyfnod ac y mae'n fwy na thebyg iddynt enwi a defnyddio'r ffynnon hon. Y mae'n werth nodi hefyd bod lleoliad y ffynnon mewn lle cyn na cheir ffynnon arall yn ei hymyl; o leiaf y mae milltir go dda cyn y cewch ffynnon arall. Byddai'r hen drigolion oedd yn byw gerllaw yn ei defnyddio'n helaeth, a'r un modd drigolion Llandudno, gan na fyddai hi byth yn mynd yn hysb. Ffaith arall gwerth ei nodi hefyd yw yr ystyr ei dwr y gorau at fragu medd ac fe'i ceisid am flynyddoedd i'r diben hwnnw, — nid o Landudno yn unig, ond o fannau eraill yn ogystal."

Gareth Pritchard